
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2017 Rhif 953 (Cy. 240) (C. 87)

**TRETH TRAFODIADAU TIR,
CYMRU**

Gorchymyn Deddf Treth
Trafodiadau Tir a Gwrthweithio
Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)
2017 (Cychwyn Rhif 1) 2017

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (“y Ddeddf”).

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol o'r Ddeddf ar 18 Hydref 2017. Mae'r darpariaethau perthnasol yn ei gwneud yn bosibl paratoi ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig. Yn benodol, mae'r darpariaethau perthnasol—

- (a) yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth;
- (b) yn rhoi pŵer i'r Prif Gofrestrydd Tir ymrwymo i drefniadau gydag Awdurdod Cyllid Cymru (“ACC”) at ddibenion galluogi ACC i wirio y cydymffurfwyd â gofynion y Ddeddf; ac
- (c) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch trafodiadau sy'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2017 Rhif 953 (Cy. 240) (C. 87)

**TRETH TRAFODIADAU TIR,
CYMRU**

**Gorchymyn Deddf Treth
Trafodiadau Tir a Gwrthweithio
Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)
2017 (Cychwyn Rhif 1) 2017**

Gwnaed

28 Medi 2017

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 81(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(1).

Enw

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 1) 2017.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 18 Hydref 2017

2. Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ddod i rym yw 18 Hydref 2017—

- (a) adran 9(6) (tir sy'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr);
- (b) adran 24 (rheoliadau sy'n pennu bandiau treth a chyfraddau treth) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau o dan is-adrannau (1) ac (11);
- (c) adran 25 (gweithdrefn ar gyfer rheoliadau sy'n pennu bandiau treth a chyfraddau treth);
- (d) adran 30(1) (rhyddhadau) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau yn Atodlen 11

(1) 2017 dccc 1.

(rhyddhad bondiau buddsoddi cyllid arall) y cyfeirir atynt ym mharagraff (e);

- (e) yn Atodlen 11—
 - (i) paragraff 2 (dehongli);
 - (ii) paragraff 9(1) (amod 4) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;
 - (iii) paragraff 16 (gollwng pridiant tir pan fodlonir amodau ar gyfer rhyddhad) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;
 - (iv) paragraff 18(4)(a) a (5) (disodli ased) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;
- (f) adran 32(2) (lesoedd) i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 28 a 36(1)(b) o Atodlen 6 (lesoedd);
- (g) yn Atodlen 6—
 - (i) paragraff 28 (cyfraddau treth a bandiau treth: elfen rhent lesoedd amhreswyl a lesoedd cymysg);
 - (ii) paragraff 36(1)(b) (y rhent perthnasol) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;
- (h) adran 65(5), (6) a (7)(b) (cofrestru trafodiadau tir);
- (i) adran 76 (diwygiadau i DCRhT) i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 8 o Atodlen 23 (diwygiadau i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(1)); a
- (j) paragraff 8 o Atodlen 23.

Mark Drakeford

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth
Leol, un o Weinidogion Cymru
28 Medi 2017